



## Deddfwriaeth Diogelu Data

Dogfen Bolisi Briodol

Polisi ar Brosesu Data Sensitif at Ddibenion  
Gorfodi'r Gyfraith, o dan Ran 3 o Ddeddf Diogelu  
Data 2018

Technoleg Adnabod Wynebaw Byw Heddlu De  
Cymru

Prosesu data biometrig er mwyn adnabod unigolyn  
yn benodol.

Gorffennaf 2021

Fersiwn 1.4

Rheoli Fersiynau

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Pwrpas
V1.0	25/01/2021	S.Lloyd	Drafft Gwreiddiol
V1.1	22/02/2021	S.Lloyd	Adolygiad Uwch- dîm Rheoli'r Is-

			adran Gwasanaethau Digidol
<b>V1.2</b>	01/04/2021	S.Lloyd	Adolygiad y Swyddog Diogelu Data
<b>V1.3</b>	16/04/2021	S.Lloyd	Adolygiad Bwrdd Technoleg Adnabod Wyneb- bau
<b>V1.4</b>	08/07/2021	S.Lloyd	Cymeradwywyd gan yr Uwch- swyddog Cyfrifol

## Cyflwyniad

Lluniwyd y ddogfen bolisi hon yn unol â rhwymedigaethau Heddlu De Cymru o dan Ran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018. Dylid ei darllen ochr yn ochr â Chofnod Heddlu De Cymru o Weithgareddau Prosesu (a gynhelir yn unol ag [Erthygl 30 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac adran 61 o Ddeddf Diogelu Data 2018](#)) a [Hysbysiad Preifatrwydd](#) Heddlu De Cymru. Ceir polisi diogelu data sy'n ymwneud yn benodol â thechnoleg adnabod wyneb-  
bau byw hefyd yn y Polisi ar Dechnoleg Adnabod Wyneb-  
bau Byw a'r Aseiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer Technoleg Adnabod Wyneb-  
bau Byw a Rhan 2 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac Erthygl 9 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Mae adrannau 35(3), 35(5)(c) a 42 Rhan 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn nodi'r gofyniad i Ddogfen Bolisi Briodol fod ar waith wrth brosesu data personol sensitif at ddibenion Gorfodi'r Gyfraith.

Diffinnir prosesu sensitif yn Rhan 3 adran 35(8) ac mae'n cyfateb i ddata categori arbennig o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Mae gweithgareddau prosesu data sensitif yn cynnwys: -

- a) prosesu data personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol neu aelodaeth o undebau llafur;
- b) prosesu data genetig, neu ddata biometrig, at ddiben adnabod unigolyn yn benodol;
- c) prosesu data sy'n ymwneud ag iechyd;
- d) prosesu data sy'n ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn.

Mae'n rhaid i weithgareddau prosesu data at ddibenion gorfodi'r gyfraith gydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data a amlinellir yn Rhan 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018. Yn benodol, mae'r egwyddor diogelu data gyntaf (adran 35) yn nodi bod yn rhaid i weithgareddau prosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith fod yn gyfreithlon ac yn deg.

Yn ogystal, dim ond os oes gennych Ddogfen Bolisi Briodol ac os yw'r gweithgarwch prosesu yn bodloni'r amodau canlynol y cewch brosesu data personol sensitif at ddibenion gorfodi'r gyfraith: -

- mae'r gweithgarwch yn seiliedig ar gydsyniad testun y data - gweler adran 35(4);

neu

- mae'r gweithgarwch yn gwbl angenrheidiol at ddiben gorfodi'r gyfraith ac yn seiliedig ar un o'r amodau yn Atodlen 8 - adran 35(5).

## **Y Ddogfen Bolisi hon**

Bydd y ddogfen hon yn dangos bod gweithgareddau prosesu data sensitif yn cydymffurfio â'r gofynion yn Rhan 3 adran 42 o Ddeddf Diogelu Data 2018.

## **Disgrifiad o'r Data a Brosesir**

Y data sensitif a brosesir gan ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw: -

- Data biometrig er mwyn adnabod unigolyn yn benodol.

Adnabod wynebau byw yw'r defnydd amser real o dechnoleg adnabod wynebau, sy'n cymharu ffrwd/ffrydiau camera byw o wynebau yn erbyn Rhestr Wyllo a bennwyd ymlaen llaw er mwyn dod o hyd i Bobl o Ddiddordeb drwy gynhyrchu Rhybudd pan nodir cyfatebiad posibl.

Mae'r Rhestr Wyllo ar gyfer Adnabod Wynebau Byw yn is-set o set ddata Heddlu De Cymru o luniau a dynnwyd yn y ddalfa yn bennaf ond gall hefyd gynnwys lluniau eraill a ddelir yn gyfreithlon.

Bydd gan bob delwedd ar y Rhestr Wyllo dempled biometrig (data personol sensitif) a grëwyd ar adeg cofrestru â'r system technoleg adnabod wynebau.

Caiff templed biometrig ei greu ar gyfer pob wyneb a gymherir yn erbyn y Rhestr Wyllo (data personol sensitif).

Ystyrir bod data biometrig a ddefnyddir i adnabod unigolyn yn benodol yn ddata personol sensitif. Ar gyfer y gwaith prosesu hwn byddwn yn casglu data personol aelodau o'r cyhoedd a fydd yn cynnwys delwedd a allai gael ei defnyddio drwy dynnu templed biometrig ohoni er mwyn eu hadnabod yn benodol. Os na fydd y data hyn yn cynhyrchu Rhybudd yn erbyn yr hyn a ddelir ar y Rhestr Wyllo, ni chânt eu prosesu

ymhellach a chaiff data biometrig yr unigolyn eu dileu am byth ar ôl i'r gymhariaeth hon gael ei chwblhau. Ni chesglir unrhyw ddynodyddion personol eraill yn ychwanegol at y ddelwedd fiometrig.

Nid yw Heddlu De Cymru yn dibynnu ar gydsyniad ar gyfer prosesu.

### **Amodau ar gyfer prosesu data sensitif.**

Mae nifer o amodau perthnasol yn Atodlen 8 a fydd yn gymwys ar gyfer defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw, sy'n gymwys i arferion plismona presennol sut bynnag:

#### 1. Dibenion statudol ac ati

Bodlonir yr amod hwn os oes angen prosesu'r data—

- (a) er mwyn arfer swyddogaeth a roddir i berson drwy ddeddfiad neu reolaeth y gyfraith, a
- (b) bod gwneud hynny am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd

Mae gan yr heddlu ddyletswydd o dan y gyfraith gyffredin i atal a chanfod troseddau: dyma'r 'reolaeth y gyfraith' berthnasol y mae angen prosesu data yn unol â hi er mwyn i'r heddlu arfer ei swyddogaethau. Mae angen prosesu'r data hefyd am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd, hynny yw, er mwyn atal a chanfod troseddau a diogelu'r cyhoedd. Wrth benderfynu a oes angen prosesu data, bydd Heddlu De Cymru bob amser yn ystyried a ellir defnyddio dulliau llai ymwithiol heb danseilio'r amcan na buddiannau'r unigolyn wedi'u cydbwysu yn erbyn buddiannau'r gymuned.

Amod 1 yw'r prif amod y dibynnir arno. Fodd bynnag, mae amodau eraill yn Atodlen 8 a allai fod yn gymwys hefyd, sef:

#### 2. Gweinyddu cyfiawnder

Bodlonir yr amod os oes angen prosesu'r data er mwyn gweinyddu cyfiawnder.

E.e. Adnabod unigolion sy'n osgoi cyfiawnder ar ôl cyflawni trosedd neu sy'n ymyrryd â'r gwaith o weinyddu cyfiawnder

#### 3. Diogelu buddiannau allweddol unigolyn

Bodlonir yr amod hwn os oes angen prosesu'r data er mwyn diogelu buddiannau allweddol testun y data neu unigolyn arall.

E.e. Os bydd angen prosesu'r data er mwyn asesu'r perygl uniongyrchol i swyddogion neu unigolion eraill drwy gadarnhau a oes hanes hysbys o drais.

#### 4. Diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg

Bodlonir yr amod hwn-

(a) os oes angen prosesu'r data er mwyn-

(i) diogelu unigolyn rhag esgeulustod neu niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol, neu

(ii) diogelu llesiant corfforol, meddyliol neu emosiynol unigolyn,

(b) os yw'r unigolyn-

(i) o dan 18 oed, neu

(ii) yn 18 oed neu drosodd ac yn wynebu risg,

(c) os yw'r data yn cael eu prosesu heb gydsyniad testun y data am un o'r rhesymau a restrir yn is-baragraff (2)

(d) os oes angen prosesu'r data am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd.

Gweler Deddf Diogelu Data 2018 am ddarpariaethau llawn yr amod hwn.

E.e. prosesu delweddau o unigolion y credir eu bod yn unigolion coll.

#### 8. Atal twyll

(1) Bodlonir yr amod hwn-

(a) os oes angen prosesu'r data er mwyn atal twyll neu fath penodol o dwyll, a

(b) bod hynny'n cynnwys-

(i) datgelu data personol gan awdurdod cymwys fel aelod o sefydliad gwrth-dwyll,

(ii) datgelu data personol gan awdurdod cymwys yn unol â threfniadau a wnaed gan sefydliad gwrth-dwyll, neu

(iii) prosesu data personol a ddatgelwyd fel y disgrifir yn is-baragraff (i) neu (ii).

(2) Yn y paragraff hwn, mae i "sefydliad gwrth-dwyll" yr un ystyr ag a roddir iddo yn adran 68 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2007.

E.e. prosesu delweddau ar gyfer unigolion yr amheuir eu bod wedi cyflawni twyll.

### **Gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018**

#### **Egwyddor Atebolrwydd**

Mae Heddlu De Cymru wedi rhoi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith er mwyn bodloni gofynion atebolrwydd a dangos cydymffurfiaeth â gofynion ehangach Rhan 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018 ac, yn benodol, yr egwyddorion. Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Penodi swyddog diogelu data sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data at gyfer technoleg adnabod wynebaw byw; sy'n atebol yn uniongyrchol i dîm y Prif Swyddog ar gyfer De Cymru.
- Mabwysiadu dull 'diogelu data'n fwriadol ac yn ddiodyn' wrth gynnal ein gweithgareddau.
- Cadw dogfennaeth am ein gweithgarwch prosesu gan gyfeirio'n benodol at adrannau 61 a 62 o Ddeddf Diogelu Data 2018.
- Mabwysiadu a gweithredu polisïau diogelu data a sicrhau bod gennym gontractau ysgrifenedig â'n proseswyr data.
- Rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith mewn perthynas â'r data personol a brosesir gennym.
- Cynnal asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data ar gyfer ein gweithgareddau prosesu risg uchel.

Rydym yn adolygu ein mesurau atebolrwydd yn rheolaidd ac yn eu diweddarau neu'n eu diwygio pan fo angen.

### **Egwyddor (1): cyfreithlondeb a thegwch**

Rhaid i weithgarwch prosesu data personol fod yn gyfreithlon ac yn deg. Mae ond yn gyfreithlon os yw'n seiliedig ar y gyfraith ac i'r graddau y mae'n seiliedig arni a naill ai bod testun y data wedi cydsynio i'r data gael eu prosesu neu fod angen prosesu'r data er mwyn cyflawni tasg a gyflawnir at y diben hwnnw gan Heddlu De Cymru fel awdurdodau cymwys. Gan fod technoleg adnabod wynebaw byw yn cynnwys gwaith prosesu sensitif, yn ogystal â hynny, os na lwyddir i gael cydsyniad, mae ond yn gyfreithlon os yw'r gwaith prosesu hwnnw yn gwbl angenrheidiol at ddiben gorfodi'r gyfraith a bod y gwaith prosesu yn bodloni o leiaf un o'r amodau yn Atodlen 8 a bod Heddlu De Cymru wedi rhoi'r Ddogfen Bolisi Briodol hon ar waith.

Rydym yn darparu gwybodaeth glir a thryloyw am y rhesymau pam rydym yn prosesu data personol, gan gynnwys ein sail gyfreithlon dros brosesu yn ein hysbysiad preifatrwydd, yn yr hysbysiad preifatrwydd staff a'r ddogfen bolisi hon. Mae'r asesiad o'r effaith ar ddiogelu data ar gyfer technoleg adnabod wynebaw byw yn rhoi manylion penodol am y ffordd y caiff data eu prosesu a sut mae'r mesurau rydym wedi'u rhoi ar waith yn sicrhau bod y gweithgareddau prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw. Mae dogfennaeth berthnasol a gwybodaeth ychwanegol am y ffordd y defnyddir technoleg adnabod wynebaw byw ar gael i'r cyhoedd yn [Technoleg Adnabod Wynebaw | Heddlu De Cymru \(south-wales.police.uk\)](https://www.south-wales.police.uk).

Mae prosesu data gan ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw byw yn gwbl angenrheidiol er mwyn arfer swyddogaethau Heddlu De Cymru i atal a chanfod troseddau a diogelu'r cyhoedd am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd (gweler uchod o dan **Amodau ar gyfer prosesu data sensitif**). Dibynnir yn bennaf ar amod 1 yn Atodlen 8, ond gallai amodau 2, 3, 4 a/neu 8 hefyd fod yn gymwys. Rydym wedi rhoi enghreifftiau lle y gallai hyn fod yn wir uchod. Bydd Heddlu De Cymru bob amser yn ystyried a yw defnyddio technoleg adnabod wynebaw byw yn gwbl angenrheidiol (h.y. gan ystyried mesurau eraill nad ydynt yn cynnwys prosesu

data sensitif ac a allent gyflawni'r un canlyniad) a bydd yn sicrhau y bodlonir o leiaf un amod perthnasol.

## **Egwyddor (2): cyfyngiadau o ran dibenion**

Dibenion gorfodi'r gyfraith Heddlu De Cymru ar gyfer prosesu gan ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw byw yw atal, canfod ac erlyn troseddau ac ymchwilio iddynt yn bennaf ond maent hefyd yn cynnwys diogelu rhag bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd a'u hatal. Mae'r rhain i gyd yn ddibenion gorfodi'r gyfraith o dan adran 31 o Ddeddf Diogelu Data 2018.

Bob tro y defnyddir technoleg adnabod wynebaw byw, caiff y diben gorfodi'r gyfraith penodol a dilys perthnasol ei gofnodi'n glir.

Rydym yn prosesu data sensitif gan ddefnyddio technoleg adnabod wynebaw byw pan fo angen i ni wneud hynny er mwyn cyflawni'r swyddogaethau statudol hyn a restrir uchod yn y budd sylweddol i'r cyhoedd, gan gynnwys pan fo angen gwneud hynny er mwyn cydymffurfio â gofyniad rheoleiddiol neu helpu corff arall i gydymffurfio â gofyniad o'r fath, cadarnhau a oes rhywun wedi ymddwyn mewn ffordd anghyfreithlon neu amhriodol, diogelu'r cyhoedd rhag anonestrwydd, atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon neu ddatgelu gwybodaeth i gynrychiolwyr etholedig. Enghraifft o hyn fyddai os amheuir bod unigolyn yn cyflawni trosedd.

Rydym wedi'n hawdurdodi'n gyfreithiol i brosesu data personol at y dibenion hyn. Efallai y byddwn yn prosesu data personol a gasglwyd at un o'r dibenion hyn (gennym ni neu reolydd arall), at unrhyw un o'r dibenion gorfodi'r gyfraith a restrir yma, ar yr amod bod y gwaith prosesu yn angenrheidiol ac yn gymesur â'r diben hwnnw. Golyga hyn, yn benodol, ein bod yn ystyried beth rydym yn ceisio ei gyflawni, a oes mesurau amgen na fyddent yn cynnwys prosesu data sensitif ond a fyddai'n cyflawni'r un canlyniadau, fwy neu lai, ac yn cael yr un effaith neu lai o effaith ar unigolion a'r gymuned.

Os byddwn yn rhannu data a gasglwyd at ddibenion gorfodi'r gyfraith â rheolydd arall, byddwn yn dogfennu ei fod wedi'i awdurdodi'n gyfreithiol i brosesu'r data at ei ddiben gorfodi'r gyfraith a bod y gwaith prosesu yn angenrheidiol ac yn gymesur â'r diben hwnnw.

Ni fyddwn yn prosesu data personol at ddibenion sy'n anghydnaws â'r diben gwreiddiol y'u casglwyd ar ei gyfer.

Ni fyddwn yn prosesu data a gasglwyd at ddiben sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith at ddiben nad yw'n ddiben sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith oni fydd y gwaith prosesu wedi'i awdurdodi'n gyfreithiol a'i fod yn bodloni gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data.

## **Egwyddor (3): lleihau data**

Rydym yn prosesu data sydd eu hangen at ddiben(ion) gorfodi'r gyfraith perthnasol ac yn sicrhau eu bod yn ddigonol ac yn berthnasol ac nad ydynt yn ormodol mewn perthynas â'r diben(ion) y'u prosesir ar ei gyfer (eu cyfer). Y wybodaeth a brosesir gennym yw'r wybodaeth sydd ei hangen at ein dibenion ac sy'n gymesur â nhw yn unig. Pan roddir data personol i ni neu pan fyddwn yn cael data personol, ond nad

ydynt yn berthnasol i'n dibenion datganedig, byddwn yn eu dileu. Enghraifft o hyn fyddai petai delwedd unigolyn arall yn cael ei chasglu na fyddai'n destun ymchwiliad.

At hynny, mae angen i'r data fod o ansawdd derbyniol at ddibenion cymharu e.e. delwedd o wyneb ag o leiaf 50 picsele rhwng llygaid y testun. Yn achos technoleg adnabod wynebau byw, mae digon o ddata biometrig wynebol i'w cymharu yn erbyn cronfa ddata.

Yn y pen draw, Gweithredwr technoleg adnabod wynebau byw fydd yn penderfynu a yw'r ddelwedd chwilota yn cyfateb i ddelwedd yr unigolyn ar ôl i Rybudd gael ei gynhyrchu. Mae hwn yn fesur diogelwch ychwanegol er mwyn sicrhau na chaiff unigolion tebyg ond anghywir eu nodi.

#### **Egwyddor (4): cywirdeb**

Ni fyddwn yn cadw'r ddelwedd chwilota o'r unigolyn na'r templed biometrig am fwy o amser nag sydd ei angen at y dibenion sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith y maent yn cael eu prosesu ar eu cyfer. Cedwir y ddelwedd chwilota yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu, caiff templed biometrig y ddelwedd chwilota ei ddileu'n awtomatig ac ar unwaith o'r system technoleg adnabod wynebau ar ôl i chwiliad gael ei gwblhau. Mae'n cymryd ychydig o eiliadau i gwblhau'r broses gymharu. Ar ôl i Rybudd gael ei gynhyrchu, bydd Gweithredwr technoleg adnabod wynebau byw yn rhoi sylw i'r mater. Pan fyddwn yn dod yn ymwybodol bod data personol a geir ar y Rhestr Wyllo yn anghywir neu'n anghyfredol, o ystyried y diben y maent yn cael eu prosesu ar ei gyfer, byddwn yn cymryd pob cam rhesymol er mwyn sicrhau y caiff y data hynny eu dileu neu eu cywiro yn ddi-oed. Os byddwn yn penderfynu peidio â'u dileu na'u cywiro, er enghraifft am fod y sail gyfreithlon rydym yn dibynnu arni i brosesu'r data yn golygu nad yw'r hawliau hyn yn gymwys, byddwn yn dogfennu ein penderfyniad ac yn cymryd camau priodol i hysbysu testun y data. Os byddwn yn dileu neu'n cywiro data personol byddwn yn hysbysu unrhyw dderbynwyr rydym wedi rhannu'r data hynny â nhw.

#### **Egwyddor (5): cyfyngiadau storio**

Cedwir yr holl ddata sensitif a brosesir gennym at ddiben sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith am y cyfnodau a nodir yn ein hamserlen cadw. Cedwir y ddelwedd chwilota yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu, caiff templed biometrig y ddelwedd chwilota ei ddileu'n awtomatig ac ar unwaith o'r system technoleg adnabod wynebau ar ôl i chwiliad gael ei gwblhau. Rydym yn pennu'r cyfnod cadw ar gyfer y data hyn yn seiliedig ar ein rhwymedigaethau cyfreithiol a'r angen i'w cadw ar gyfer ein hanghenion busnes. Caiff ein hamserlen cadw ei hadolygu'n rheolaidd a'i diweddarau pan fo angen.

Mewn amgylchiadau cyfyngedig, caiff delweddau a thempledi biometrig eu defnyddio at ddibenion ymchwil ac i werthuso effeithiolrwydd a pherfformiad technoleg adnabod wynebau. Lle y bo'n bosibl, caiff data personol eu hanonymaiddio neu defnyddir ffugenwau. Caiff data personol sy'n cael eu prosesu at ddibenion ymchwil eu prosesu yn unol â chytundeb rhannu data sy'n gofyn am gael digon o sicrwydd ynglŷn â diogelwch y wybodaeth wrth iddi gael ei chludo a phan na fydd yn cael ei chludo, gan gynnwys mesurau diogelwch ffisegol a thechnegol a mesurau diogelwch



sy'n ymwneud â phersonél. Bydd mesurau o'r fath yn destun gwaith craffu gan Swyddogion Diogelwch Gwybodaeth yr Heddlu a'r Swyddog Diogelu Data.

## **Egwyddor (6): uniondeb a chyfrinachedd (diogelwch)**

Caiff data personol a brosesir gan dechnoleg adnabod wynebau byw eu prosesu o fewn ein rhwydwaith cyfrifiaduron diogel achrededig a leolir yn lleol yn ardal Heddlu De Cymru yn unol â pholisïau diogelwch cenedlaethol a lleol. Caiff gwybodaeth copi caled ei phrosesu yn unol â'n polisïau rheoli gwybodaeth. Cymhwysir Polisïau Diogelu Data o ddechrau mentrau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol â'n rhwymedigaethau diogelu data a phennu lefelau priodol o fesurau diogelwch a rheolaethau technegol a sefydliadol wrth brosesu data personol a data sensitif. Bwriedir i'n holl fesurau diogelwch ddiogelu data rhag cael eu prosesu heb awdurdod neu'n anghyfreithlon, eu colli'n ddamweiniol, eu dinistrio neu eu difrodi.

Mae rheolaethau mynediad priodol ar waith ar gyfer ein systemau electronig a'n storfeydd ffisegol gan gynnwys, er enghraifft, prawf dilysu aml-ffactor i gael mynediad i ddyfeisiau symudol (ar ffurf mewngofnodi lluosog/codau mynediad/systemau adnabod wynebau ac ati), diogelu cyfrineiriau, amgryptio a systemau cloi. Perchenogion Asedau Gwybodaeth sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff yr holl brosesau rheoli gwybodaeth eu cymhwyso at wybodaeth a bod cylch parhaus o waith adolygu a phrosesau nodi a rheoli risg gwybodaeth. Mae technoleg adnabod wynebau byw hefyd wedi bod yn destun asesiad o'r effaith ar ddiogelu data.

Mae'r pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant sylfaenol ar ddiogelu data a rhaid iddynt gael hyfforddiant gorfodol ar reoli gwybodaeth bob blwyddyn. Darperir hyfforddiant penodol i swyddogion sy'n gweithio gyda thechnoleg adnabod wynebau byw, a ategir gan Weithdrefnau Gweithredu Safonol pwrpasol

Mae'r systemau a ddefnyddir gennym i brosesu data personol yn ein galluogi i ymateb i geisiadau unigolion i arfer hawliau a dileu neu ddiweddarau data personol ar unrhyw adeg lle y bo'n briodol a phan ddelir gwybodaeth a allai ddatgelu manylion personol unigolion. Caiff popeth sy'n digwydd ar systemau gweithredu ei gofnodi mewn log archwilio sy'n golygu bod modd nodi'r cam a gymerwyd, pryd y'i cymerwyd a phwy a'i cymerodd.

## **Cadw a Dileu**

### **Yn Benodol i'r system Technoleg Adnabod Wynebau Byw**

- os na fydd y system Technoleg Adnabod Wynebau Byw yn cynhyrchu Rhybudd, caiff data biometrig unigolyn eu dileu'n awtomatig ar unwaith; a
- chaiff y data a ddelir ar y cof bach USB wedi'i amgryptio a ddefnyddir i fewnforio Rhestr Wyllo eu dileu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, sut bynnag, o fewn 24 awr ar ôl gorffen Defnyddio'r dechnoleg.
- caiff rhestrau gwyllo eu dileu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, sut bynnag, o fewn 24 awr ar ôl gorffen Defnyddio'r dechnoleg.

- os bydd y system adnabod wynebau byw yn cynhyrchu Rhybudd, caiff yr holl ddata personol eu dileu cyn gynted ag y bo'n ymarferol a, sut bynnag, o fewn 24 awr ar ôl gorffen Defnyddio'r dechnoleg.

Caiff yr holl ddeunydd teledu cylch cyfyng o'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw ei ddileu o fewn 31 diwrnod, ac eithrio pan y'i cedwir:

- yn unol â Deddf Diogelu Data 2018, safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu a Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996; *a/neu*
- yn unol â pholisïau cwynion/ymchwilio i ymddygiad Heddlu De Cymru

### **System Ffynhonnell – Lluniau a Dynnwyd yn y Ddalfa**

Gweler y ddogfen 'Review of the Use and Retention of Custody Images', a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Chwefror 2017 (argymhelliad 4)

Dim euogfarn – ar gais

Grŵp 1 neu 2 (Materion Diogelu'r Cyhoedd a throseddau rhywiol a threisgar a throseddau difrifol eraill yn y drefn honno) – 10 mlynedd ar gais ac wedyn adolygiad

Grŵp 3 (pob trosedd arall) – 6 blynedd ar gais ac wedyn adolygiad

Grŵp 4 (unigolion coll) – 6 blynedd wedyn adolygiad

Caiff yr holl ddata personol eraill eu storio yn unol â safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu.

Grŵp 1 – y testun yn 100 oed wedyn adolygiad

Grŵp 2 – cyfnod clir o 10 mlynedd wedyn adolygiad

Grŵp 3 – cyfnod clir o 6 blynedd

Grŵp 4 (unigolion coll) – 6 blynedd wedyn adolygiad

### **Dyddiad adolygu'r Ddogfen Bolisi Briodol**

Cedwir y polisi hwn tra bydd ein gwaith prosesu yn mynd rhagddo ac am o leiaf 6 chwe mis ar ôl i'n gwaith prosesu ddod i ben.

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob blwyddyn neu ei ddiwygio'n amlach os bydd angen.

Ystyrir yr holl wybodaeth a chanllawiau rheoleiddio a phlisma, cyfraith achosion berthnasol a newidiadau i ddeddfwriaeth.

Cyhoeddir copi o'r polisi hwn ar wefan Heddlu De Cymru ac mae copi ar gael i'r Comisiynydd Gwybodaeth, ar gais, am ddim yn unol ag adran 42(3)(cc) o Ddeddf Diogelu Data 2018.


Ceir rhagor o wybodaeth am Dechnoleg Adnabod Wynebau Byw Heddlu De Cymru mewn dogfennau ategol hefyd, gan gynnwys:-

- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Technoleg Adnabod Wynebau Byw – Canllaw i swyddogion
- Dogfen Bolisi ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw
- Asesiad o'r effaith ar ddiogelu data ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau Byw
- Mandad Cyfreithiol i Ddefnyddio Technoleg Adnabod Wynebau Byw

Nodir isod bolisiâu/dogfennau canllaw perthnasol eraill sydd ar gael i bersonél yr heddlu:

Gwybodaeth am Ddiogelwch Gwybodaeth  
 Polisi Diogelu Data  
 Canllawiau ar Asesu'r Effaith ar Ddiogelu Data  
 Canllawiau ar Reoli Asedau Gwybodaeth  
 Llawlyfr i Berchenogion Asedau Gwybodaeth  
 Canllawiau ar Reoli Risg Gwybodaeth  
 Canllawiau ar Leihau Data, Anonymeiddio a Defnyddio Ffugenwau  
 Canllawiau ar Gydsyniad  
 Amserlen Cadw'r Heddlu

### Cymeradwyo'r Ddogfen Bolisi

<b>Y sawl a gwblhaodd y Ddogfen Bolisi Briodol</b>	Enw (mewn priflythrennau)	<b>Scott Lloyd Prif Arolygydd</b>
	Dyddiad:	<b>22/02/2021</b>
<b>Swyddog Diogelu Data</b>	Enw:	<b>Louise Voisey</b>
	Dyddiad:	<b>16/04/2021</b>
<b>Llofnod Cymeradwyo (Bydd angen cael cymeradwyaeth naill ai'r Uwch-Swyddog Cyfrifol/y Perchennog Asedau Gwybodaeth neu Bennaeth yr Uned)</b>	Llofnodwyd:	

	Enw (mewn priflythrennau)	<b>Mark Travis</b> <b>Prif Gwnstabl Cynorthwyol</b>
	Dyddiad:	<b>08/07/2021</b>